

Comisiwn Bevan Commission

Gwobr Meddylwyr y Dyfodol Bevan Canllawiau i Arweinwyr Sefydliadol



Pwy yw Comisiwn Bevan?

Mae Comisiwn Bevan yn felin drafod annibynnol ym maes iechyd a gofal yng Nghymru sy'n cael ei chynnal a'i hategu gan Brifysgol Abertawe. Mae Comisiwn Bevan yn ceisio *Herio, Newid a Hyrwyddo* materion a mentrau pwysig ym maes iechyd a gofal a chefnogi mudiad cynyddol o newid ar gyfer pobl sydd yn y system a'r rhai sy'n defnyddio'r system. Rhagor o wybodaeth; [Am Gomisiwn Bevan - Comisiwn Bevan](#).

Beth yw Gwobr Meddylwyr y Dyfodol Bevan?

- Dyma gystadleuaeth ar gyfer myfyrwyr israddedig ac ôl-raddedig ym maes iechyd a gofal ym myd addysg uwch yng Nghymru.
- Rydym yn gofyn i fyfyrwyr ddisgrifio '**Sut olwg dylai fod ar wasanaethau iechyd a gofal yng Nghymru yn 2050 a beth bydd angen ei wneud i gyflawni hyn?**'

Pam mae Comisiwn Bevan wedi lansio Gwobr Meddylwyr y Dyfodol Bevan?

- Rydym am ymgysylltu â dealltwriaeth a syniadau **creadigol** ein darpar arweinwyr ifanc y dyfodol ym maes iechyd a gofal yng Nghymru.
- Byddwn yn defnyddio'r meddyliau i lywio gweithgareddau Comisiwn Bevan yn y dyfodol o ran arloesi a chynnal y system iechyd a gofal a chreu system sy'n addas i bawb sy'n ei defnyddio.
- Er mwyn creu cyfle i rannu meddyliau gweithlu iechyd a gofal y dyfodol yn genedlaethol ac er mwyn i geisiadau fod yn rhan o arddangosiad GIG 75 y flwyddyn nesaf.

Beth yw'r manteision i fyfyrwyr sy'n cymryd rhan yng nghystadleuaeth Meddylwyr y Dyfodol Bevan?

- Mae'r cyfle'n cefnogi datblygiad cymuned amrywiol ac amlddisgyblaethol o ysgolheigion ifanc, ymarferwyr ac arweinwyr y dyfodol ar draws maes iechyd a gofal yng Nghymru.
- Bydd pob ymgeisydd sydd â chyflwyniadau priodol yn cael cynnig y cyfle i ymuno â Chymuned Meddylwyr y Dyfodol ym maes Iechyd a Gofal.
- Caiff dealltwriaeth ei rhannu'n genedlaethol a'i defnyddio i lywio barn Comisiwn Bevan yn y dyfodol wrth bennu gwasanaethau iechyd a gofal darbodus a chynaliadwy ar gyfer y dyfodol i bobl Cymru.

Pa gymorth sydd ar gael i fyfyrwyr sydd am gymryd rhan yng nghystadleuaeth Meddylwyr y Dyfodol Bevan?

- Gwahoddir myfyrwyr i ymuno ag un o ddau weithdy briffio/creadigol a gaiff eu cynnig i ategu eu cais ar y dyddiadau isod
- Gall myfyrwyr/arweinwyr cwrs e-bostio ymholiadau ychwanegol i Bevan-Future-Thinker@swansea.ac.uk
- Dylai myfyrwyr sydd am gymryd rhan ddarllen y Briff Gwybodaeth am Feddylwyr y Dyfodol
- Mae dolenni defnyddiol i adnoddau ar gael, a gellir eu defnyddio fel pwyntiau cyfeirio - [Bevan Commission](#)
- Bydd yr holl wybodaeth berthnasol ar gael drwy dudalen we Meddylwyr y Dyfodol ar wefan Comisiwn Bevan - [Bevan Commission](#)

Y Broses Cyflwyno Cais:

- Dylai myfyrwyr ystyried pwyntiau cyfeirio a holi ac ateb y gystadleuaeth y cyfeirir atynt ym Mriff Gwybodaeth Meddylwyr y Dyfodol sydd ar gael drwy'r ddolen ganlynol [- Bevan Commission](#)
- Dylai myfyrwyr gwblhau'r ffurflen gais ar-lein: [- Bevan Commission](#)
- Anogir myfyrwyr i drafod eu cais ag arweinydd eu cwrs.
- Dylai myfyrwyr ymuno ag un o ddwy sesiwn briffio gwybodaeth ar-lein sy'n cael eu cynnig. **Gweler y dolenni isod.**

Sesiynau Briffio Gwybodaeth Meddylwyr y Dyfodol Bevan:

- Er mwyn cefnogi myfyrwyr drwy gydol y broses cyflwyno cais, cynhelir dwy sesiwn briffio gwybodaeth ar-lein ar y dyddiadau a'r amserau uchod. Dyma gyfle i fyfyrwyr ddysgu rhagor am Gomisiwn Bevan a chyfle'r gystadleuaeth, yn ogystal â gofyn unrhyw gwestiynau sy'n ymwneud â'u cais a'r broses cyflwyno cais.

Sesiynau Briffio 1: Dydd Llun 6 Chwefror 2023, 10yb

Sesiynau Briffio 2: Dydd Iau 9 Mawrth 2023, 2pm

Sesiynau i'w harchebu ar-lein: - [- Bevan Commission](#) (Sesiynau Briffio)

Dyddiad Cau'r Gystadleuaeth:

- Bydd y gystadleuaeth yn agor ar ddydd Gwener 16 Ionawr, a'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ceisiadau fydd **dydd Gwener 24 Mawrth 2023**.

Meini prawf cyflwyno:

- Ni ddylai ceisiadau gynnwys mwy na **2,500 o eiriau**
- Mae'n rhaid cyflwyno ceisiadau erbyn **dydd Gwener 24 Mawrth 2023**
- Mae'n rhaid cyflwyno ceisiadau drwy'r <https://www.bevancommission.org/the-professor-sir-mansel-aylward-bevan-future-thinkers-in-health-and-care-award/> 'Online Application'
- Rhaid i geisiadau fod ar ffurf traethawd. Croesewir cynnwys ategol mewn amrywiaeth o fformatau cyfryngau (flogiau, blogiau, animeiddiadau)
- Rhaid i geisiadau fynd i'r afael â'r cwestiwn: ***Sut olwg dylai fod ar wasanaethau iechyd a gofal yng Nghymru yn 2050 a beth bydd angen ei wneud i gyflawni hyn?***

Er mwyn helpu i ysgogi eu meddyliau, ac fel canllaw, efallai hoffai myfyrwyr ystyried y pwyntiau canlynol:

- Sut gallai gwasanaethau fod yn fwy **cynaliadwy, hygyrch a pherthnasol** i'r boblogaeth?
- Sut gallem i gyd wneud y defnydd gorau o'r holl **sgiliau ac adnoddau sydd ar gael** i gyflawni iechyd a gofal mwy darbodus?
- Sut byddwn yn sicrhau **effaith a chynaliadwyedd amgylcheddol** ac economaidd?
- Sut bydd **tueddiadau a ffactorau cymdeithasol ehangach y boblogaeth yn dylanwadu ar y galw am wasanaethau iechyd a gofal?**
- Beth yw'r prif **heriau a chyfleoedd** y gallem eu hwynebu a sut gellir goroesi a manteisio i'r eithaf ar y rhain?

- **Pa wersi y gellir eu dysgu** o'r gorffennol a'r presennol yn genedlaethol ac yn rhyngwladol a allai fod yn berthnasol i Gymru?
- **Pa gyfrifoldebau y dylai cleifion, gweithwyr proffesiynol, y llywodraeth a byrddau iechyd eu cymryd** er mwyn galluogi GIG sy'n fwy iach a chynaliadwy ac sy'n addas i'r dyfodol.
- **Pa rôl/fath o dechnoleg y gellir ei defnyddio** ym maes iechyd er mwyn gwella darpariaeth gwasanaethau, mynediad at wasanaethau a phrofiad y claf?

Asesu:

- Caiff pob cais ei asesu gan banel o arbenigwyr gan gynnwys Comisiynwyr Bevan a phobl flaenllaw o faes iechyd a gofal yng Nghymru.
- Caiff rhestr fer o'r ceisiadau gorau ei llunio, a bydd yr ymgeiswyr hynny'n cyflwyno eu syniadau gerbron panel o Gomisiynwyr Bevan lle bydd gofyn iddynt ymhelaethu ar eu syniadau a'u meddyliau.
- Rhwir gwybod i ymgeiswyr buddugol erbyn 06/06/2023.

Canlyniad yr asesu:

- Cyhoeddir pob cais priodol ar gyfer cynulleidfaoedd cenedlaethol a rhyngwladol.
- Caiff ceisiadau buddugol eu harddangos y flwyddyn nesaf fel rhan o arddangosiad Comisiwn Bevan i GIG 75.
- Caiff gwobr ei rhannu rhwng y 5 cais gorau.

Dyddiadau Allweddol:

Gweithgareddau Allweddol:	Dyddiad:
Cystadleuaeth yn agor	25/11/2022
Sesiwn Briffio Gwybodaeth 1	06/02/2023
Sesiwn Briffio Gwybodaeth 2	09/03/2023
Dyddiad Cau'r Gystadleuaeth	24/03/2023
Cyflwyniadau Gerbron y Panel Dewis	22 + 23/05/2023
Canlyniad y Panel Dewis	06/06/2023
Cynhadledd GIG 75 a Chanlyniad	5 + 6/07/2023

Cwestiynau Cyffredin:

Mae'r testun isod yn darparu rhestr o gwestiynau cyffredin. Wedi'u lleoli o dan y cwestiynau mae atebion a ddarperir gan Gomisiwn Bevan i arwain ymatebion i gwestiynau y gallai sefydliadau eu derbyn gan fyfyrwyr. Os na allwch ateb unrhyw un o'r cwestiynau a ofynnwyd gan ddarpar ddyfodiad, mae croeso i chi eu harwain i gyfeiriad Comisiwn Bevan- Bevan-Future-Thinkers@swansea.ac.uk

1. Pwy all ymgeisio yng nghystadleuaeth Gwobr Meddylwyr y Dyfodol Bevan?

Myfyrwyr israddedig ac ôl-raddedig sy'n astudio iechyd a gofal mewn sefydliadau addysg uwch yng Nghymru.

2. Sut caiff fy nghais ei asesu?

Caiff ceisiadau eu hasesu gan Banel Dewis o arbenigwyr o Gomisiwn Bevan a phobl flaenllaw ym maes iechyd a gofal yn unol â'r meini prawf penodol sydd yn y ffurflen gais a'r Briff Gwybodaeth sydd ar gael i fyfyrwyr.

4. Oes gwobr os byddaf yn ennill y gystadleuaeth?

Oes.

5. Beth yw'r manteision o gymryd rhan yn y gystadleuaeth?

Cewch y cyfleoedd canlynol:

- Cyfrannu at farn cymuned o feddyliau mawr sy'n adnabyddus yn rhyngwladol sy'n rhan o Gomisiwn Bevan.*
- Dylanwadu wrth gefnogi'r gwaith o drawsnewid a datblygu gwasanaethau iechyd a gofal y dyfodol yng Nghymru.*
- Cynrychioli llais pobl iau yng Nghymru, sef y genhedlaeth nesaf o ddefnyddwyr gwasanaethau ac arweinwyr systemau iechyd a gofal ledled ein cenedl.*
- Cefnogi eich datblygiad yn bersonol ac yn broffesiynol, a rhwydweithio â rhai o'r bobl a'r meddyliau mawr mwyaf blaenllaw yn y maes hwn.*
- Bydd Comisiwn Bevan yn cyhoeddi'r ceisiadau buddugol ac yn eu hyrwyddo'n fwy eang.*
- Ymunwch â Chymuned Meddylwyr y Dyfodol Bevan ym maes Iechyd a Gofal a fydd yn dod â'r meddyliau ifanc mwyaf disglair ledled Cymru at ei gilydd mewn cymuned ymarfer weithredol.*
- Bydd enillwyr Meddylwyr y Dyfodol Bevan yn cael gwobr.*

6. Pa gymorth sydd ar gael os byddaf yn penderfynu cymryd rhan?

Mae tudalen we Meddylwyr y Dyfodol Bevan yn cynnwys:

- Briff Gwybodaeth i fyfyrwyr*
- Dolenni adnoddau*
- Dolenni i ddwy sesiwn briffio gwybodaeth ar-lein*
- Y ddolen i gyflwyno cais ar-lein*
- Dolen er mwyn cysylltu os oes ymholiadau*

Diolch am eich cefnogaeth

Rydym yn ddiolchgar iawn i sefydliadau addysg uwch ledled Cymru am rannu a chefnogi'r cyfle cyffrous hwn â'u myfyrwyr.

Os oes cwestiynau gennych am Wobr Meddylwyr y Dyfodol a'r broses cyflwyno cais, mae pob croeso i chi gysylltu â Chomisiwn Bevan- Bevan-Future-Thinker@swansea.ac.uk